**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddEAAL@assembly.wales

11 Mawrth 2019

Annwyl David,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ôl imi ddod i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 4 Chwefror i roi gwybodaeth fanylach ichi am raglen Offerynnau Statudol Cymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE, y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ac OSau posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE.

Erbyn yr wythnos y bûm yn bresennol yn y Pwyllgor, roedd 29 o offerynnau statudol arfaethedig y weithdrefn negyddol wedi cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'w didoli. O'r 29 hyn, cytunodd y pwyllgor y dylai 27 gael eu gwneud gan y weithdrefn negyddol. Mae pob un o'r rhain wedi'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae tri OS pellach wedi'u gwneud o dan y weithdrefn negyddol, ond nid trwy ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr UE (Ymadael). Mae pob un o'r OSau negyddol hyn yn cael eu gosod mewn pryd iddynt ddod i rym erbyn 29 Mawrth.

Roedd y PMCD o'r farn y dylai dau o'r OSau negyddol arfaethedig fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol ac fe dderbyniodd Llywodraeth Cymru'r ddau argymhelliad, gan osod drafft o'r cyntaf fel OS cadarnhaol a'r ail ar 5 Mawrth. Gan gynnwys y rhain, rydym wedi gosod 11 o Offerynnau Statudol cadarnhaol i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn y diwrnod ymadael. Er hwylustod, rwyf wedi amgáu tabl o'r holl OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE sydd wedi'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol hyd yn hyn.

Yn ogystal, rydym yn rhag-weld hyd at wyth o OSau y bwriedir iddynt ddod i rym ar ôl 29 Mawrth. Byddai'r mwyafrif o'r hyn yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i Gyfraith Cymru o ganlyniad i ddeddfwriaeth y DU sydd heb gael ei gwneud eto. Er enghraifft, efallai y bydd angen inni wneud diwygiadau i Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014, ond mae'r rhain yn dibynnu ar y Bil Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) y mae Senedd y DU yn craffu arno ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen Offerynnau Statudol pellach o ganlyniad i ddeddfwriaeth frys a wneir mewn ymateb i ymadawiad heb gytundeb ar 29 Mawrth, os bydd y sefyllfa honno'n codi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw  gweddill yr OSau yn gysylltiedig â deddfwriaeth y DU sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd ac fe ddeuant i rym ar ôl y diwrnod ymadael gan nad oes angen i'w darpariaethau gael effaith tan ddyddiad diweddarach. Rydym yn ymdrechu i osod y rhain ar y cyfle cyntaf i ganiatáu craffu ar yr OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE yn eu cyfanrwydd.

Rwyf yn gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r pwyllgor, wrth gynnig cyd-destun manylach i'ch ystyriaeth.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw , cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

## Rhestr o Offerynnau Statudol Ymadael yr UE a Ddarperir yn y Cynulliad Cenedlaethol hyd yn hyn

**Gweithdrefn Negyddol**

| | |
|---|---|
| 1. | Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 2. | Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 3. | Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 4. | Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 5. | Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 6. | Rheoliadau Da Byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 7. | Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 8. | Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019. |
| 9. | Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 10. | Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 11. | Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 12. | Rheoliadau Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 13. | Rheoliadau Ceffylau (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 14. | Rheoliadau Maethiad (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 15. | Rheoliadau Ceffylau (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 16. | Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 17. | Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Ymadael â'r UE) (Cymru) 2019 |
| 18. | Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 19. | Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 20. | Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Cymru) 2019 |
| 21. | Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 22. | Rheoliadau Safonau a Labelu Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 23. | Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 24. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 25. | Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| 26. | Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |

| | |
|---|---|
| 27. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 |
| 28. | Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (Heb ei wneud o dan Adran 8 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Tynnu'n ôl) 2018) |
| 29. | Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Cymru) 2019 (Heb ei wneud o dan Adran 8 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Tynnu'n ôl) 2018) |
| 30. | Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) (Cymru) 2019 (Heb ei wneud o dan Adran 8 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Tynnu'n ôl) 2018) |

**Gweithdrefn Gadarnhaol**

| | |
|---|---|
| 1. | Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r DU) 2019 |
| 2. | Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 |
| 3. | Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019 |
| 4. | Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 |
| 5. | Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 (Wedi'i newid i gadarnhaol ar ôl sifftio) |
| 6. | Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 |
| 7. | Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 |
| 8. | Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 |
| 9. | Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 (Wedi'i newid i gadarnhaol ar ôl sifftio) |
| 10. | Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019. |
| 11. | Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 |